# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 25 Mehefin 2018

Amser: 13.04 - 16.42

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4750

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Lee Waters AC<br>Mike Hedges AC (yn lle Rhianon Passmore AC) |
| Tystion: | Tracey Burke, Llywodraeth Cymru<br>Steve Davies, Llywodraeth Cymru<br>Melanie Godfrey, Llywodraeth Cymru<br>John Howells, Llywodraeth Cymru<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas CBE - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mark Jeffs<br>Nick Selwyn |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc) |

## 1 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Materion Allweddol ac Argymhellion Drafft

1.1. Trafododd yr Aelodau y materion allweddol a'r argymhellion drafft a nodwyd y trefnir i'r adroddiad drafft gael ei drafod yn y Pwyllgor ar 9 Gorffennaf.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AC ac Adam Price AC. Roedd Mike Hedges AC yn bresennol fel dirprwy.

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 4 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: Sesiwn Dystiolaeth 3

4.1 Rhoddwyd tystiolaeth i'r Aelodau gan Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus; Steve Davies, Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Addysg; a Melanie Godfrey, Dirprwy Gyfarwyddwr Busnes Addysg a Llywodraethu, Llywodraeth Cymru fel rhan o'i ymchwiliad i Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif.

4.2 Cytunodd Tracey Burke i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor.

4.3 Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn amlinellu ei ganfyddiadau.

## 5 Addasiadau Tai: Sesiwn Dystiolaeth 4

5.1 Rhoddwyd tystiolaeth i'r Aelodau gan Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus; John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio; ac Emma Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Tai Llywodraeth Cymru fel rhan o'i ymchwiliad i addasiadau tai.

5.2 Cytunodd Tracey Burke i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor.

5.3 Cytunodd y Pwyllgor i roi adroddiad ar ei ganfyddiadau i Lywodraeth Cymru cyn Toriad yr Haf.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Addasiadau Tai: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

8.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.